# <u>Hysbysiad o Gynnig</u>

## A5026 FFORDD HOLWAY, A5026 FFORDD PARC FRON, A5026 STRYD CHITFFORDD A FFYRDD CYFAGOS, TREFFYNNON
## CYNNIG I GYFYNGU DIM AROS AR UNRHYW ADEG A CLIRFFORDD SAFLE BWS

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1 Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg:

a. Yng nghyffordd A5026 Ffordd Holway gyda Lôn Gwel Afon, Treffynnon.
b. Yng nghyffordd A5026 Ffordd Holway gyda Lôn Wedgewood Heights, Treffynnon.
c. Yng nghyffordd A5026 Ffordd Holway gyda A5026 Stryd Chitffordd, Treffynnon.
d. Mewn amryw leoliadau ar ddwy ochr yr A5026 Ffordd Holway, Treffynnon.
e. Mewn amryw leoliadau ar ddwy ochr yr A5026 Ffordd Parc Y Fron, Treffynnon.
f. Yng nghyffordd A5026 Stryd Chitffordd gyda Lôn Ael-y-Ffynnon, Treffynnon.

2. Diddymu cyfyngiadau parcio ‘Tymor Ysgol - Dydd Llun - Dydd Gwener 8.15am - 9.15am a 2.45pm - 4.00pm ar gyfer Bysiau Ysgol yn Unig’ a chyflwyno ‘Clirffordd Safle Bws Dydd Llun - Dydd Gwener 7am - 7pm’ yn y Gilfan y tu allan i’r fynedfa i gerddwyr ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Gwenffrewi, ar yr A5026 Whitford Street, Treffynnon.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013’ yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Sir y Fflint yn Cysylltu, Hen Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â’r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 12 Ebrill 2024 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/65

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint.
CH7 6NR. Dydd Mawrth 22 2024.